Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Castell

Stryd y Priordy
Cydweli
Sir Gaerfyrddin
SA17 4TR

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Y Castell

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Y Castell |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 218 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 175 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 32 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 22.9%) | 26.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 11.1%) | 13.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 2.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 4.6% |
| Partner arweiniol mewn addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2015 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/07/2019 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 13/10/2025 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Y Castell yn darparu amgylchedd diogel, anogol a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Mae staff yn blaenoriaethu lles disgyblion ac yn gweithio'n effeithiol fel tîm i feithrin ethos gofalgar. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn teimlo'n hyderus fod eu safbwyntiau'n cael eu parchu.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys, ac mae disgyblion yn cyfrannu'n ystyrlon at ei ddatblygu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu. Maent hefyd yn meithrin dealltwriaeth fathemategol gadarn ac yn cymhwyso'u medrau rhifedd a digidol yn briodol ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn rhy oddefgar oherwydd gormod o gyfarwyddyd gan athrawon, ac nid yw lefel yr her yn gyson uchel. Nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel bob amser ar gyfer cynnydd disgyblion neu nid ydynt yn cynllunio profiadau dysgu sy'n adeiladu'n ddigon da ar ddysgu blaenorol, mewn ychydig o wersi.

Pan mae'r addysgu ar ei gryfaf, mae'r gwersi'n ddifyr ac yn bwrpasol, gyda gweithgareddau ymarferol sy'n hyrwyddo datblygiad medrau. Mae athrawon yn defnyddio holi yn effeithiol ac yn darparu adborth buddiol ar lafar i gefnogi dysgu. Fodd bynnag, nid yw adborth ysgrifenedig athrawon i ddisgyblion yn arwain at welliannau yn ansawdd y gwaith yn ddigon aml.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod o brosesau hunanwerthuso i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae hyn wedi arwain at ddatblygiadau llwyddiannus, fel ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg. Nid yw arweinwyr bob amser yn gwerthuso effeithiolrwydd yr addysgu yn ddigon craff.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1. Cryfhau prosesau hunanwerthuso a gwella i nodi a mynd i'r afael â diffygion mewn addysgu

A2. Gwella'r defnydd o asesu ac adborth i gefnogi cynnydd disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae'r pennaeth, y llywodraethwyr a'r staff yn sicrhau bod yr ysgol yn gymuned anogol a chynhwysol. Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n llwyddiannus ar les a datblygiad personol disgyblion. Mae staff yn gweithio fel tîm cryf, ac maent yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol â disgyblion a rhieni. Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch a charedigrwydd at ddisgyblion eraill ar draws yr ysgol yn gyson. Maent yn falch o'u hysgol.

Mae cymorth yr ysgol ar gyfer anghenion emosiynol disgyblion yn effeithiol. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda, yn gweithio'n sensitif i ddiwallu eu hanghenion, ac yn eu helpu i ymgysylltu â'u dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd da. Erbyn iddynt adael yr ysgol, maent yn datblygu medrau addas mewn siarad, gwrando, darllen, ysgrifennu a rhifedd, sy'n cefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm.

Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da â'u medrau ysgrifennu Saesneg; o greu marciau cynnar ac ysgrifennu ryseitiau yn y gegin fwd, maent yn symud ymlaen i gynhyrchu testunau mwy cymhleth. Maent yn defnyddio ystod addas o atalnodi'n gywir a geirfa aeddfed sy'n ennyn diddordeb y darllenydd. Maent yn cymhwyso'u medrau ysgrifennu yn effeithiol ym meysydd eraill y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu testunau perswadiol i annog a rhoi gwybod i bobl eraill am fuddion rhoi gwaed.

Mae medrau siarad a gwrando'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn siarad yn frwdfrydig am eu gwaith a'u bywyd ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn gwrando'n astud ar gyfraniadau eu cyfoedion ac yn esbonio'u hunain yn glir ac yn hyderus wrth gydweithio ar dasgau. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn siarad yn glir ac yn hyderus ac yn cymedroli eu tôn, yn dibynnu ar y gynulleidfa.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau mathemategol yn effeithiol. Mae'n cynorthwyo'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd da wrth ddeall a chymhwyso'u medrau a'u gwybodaeth. Rhoddir cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau rhifedd yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae'r gweithgareddau sy'n cael eu cynllunio gan athrawon yn darparu her annigonol.

Mae arweinwyr wedi rhoi ffocws clir ar ddatblygu'r Gymraeg. Mae bron pob un o'r staff yn modelu'r Gymraeg yn effeithiol ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau da wrth gyfathrebu yn Gymraeg wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol, ac maent yn mwynhau dysgu Cymraeg.

Mae staff yn gweithio ar y cyd ac yn llwyddiannus i ddatblygu cwricwlwm cynhwysol a diddorol sydd, ar y cyfan, yn darparu ehangder addas o ddysgu ar draws pob maes dysgu a phrofiad. Wrth gynllunio'r cwricwlwm, mae athrawon yn gwneud defnydd da o lais y disgybl ac yn ymateb yn brydlon i gwestiynau y mae disgyblion yn eu gofyn neu ddiddordebau penodol y mae disgyblion yn eu dangos. Yn y gwersi mwyaf effeithiol, mae athrawon yn addasu llwybr eu haddysgu i ddiwallu anghenion a bodloni diddordebau disgyblion. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw cynllunio athrawon o ran medrau trawsgwricwlaidd annibynnol yn herio disgyblion yn briodol i ddatblygu eu medrau'n raddol.

Pan mae'r addysgu'n fwyaf effeithiol, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel ac maent yn symud y dysgu ymlaen ar gyflymdra priodol. Maent yn darparu gweithgareddau pwrpasol ac ymarferol ac yn defnyddio holi ac adborth yn effeithiol i atgyfnerthu'r dysgu, a'i ymestyn. Mewn ychydig o wersi, pan mae'r addysgu'n llai effeithiol, mae cyflymdra'r dysgu'n rhy araf, mae disgyblion yn oddefgar am gyfnodau estynedig, ac nid yw lefel yr her yn ddigonol. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn darparu adborth effeithiol ar lafar yn ystod gwersi i ddatblygu dysgu a dealltwriaeth disgyblion. Nid yw prosesau adborth ysgrifenedig yn sicrhau bod disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddrafftio, golygu a gwella'u gwaith neu ymestyn eu dysgu ymhellach.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod meysydd i'w gwella yn canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau cenedlaethol a lleol ac yn defnyddio ystod o brosesau hunanwerthuso addas i nodi cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Maent wedi gwella rhai agweddau ar ddarpariaeth yr ysgol yn llwyddiannus, er enghraifft datblygu darpariaeth Gymraeg. Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol rheolaidd yn cyfrannu'n briodol at agweddau ar wella'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw prosesau hunanwerthuso a gwelliant wedi mynd i'r afael ag ychydig o anghysondebau mewn addysgu nac wedi sicrhau bod lefel yr her mewn ychydig o wersi a gweithgareddau dysgu yn gweddu i anghenion disgyblion.

Mae'r ysgol yn cynnal cysylltiadau cryf â'r gymuned leol. Mae disgyblion yn ymuno â digwyddiadau a gweithgareddau codi arian lleol, gan feithrin balchder ac ymdeimlad o berthyn. Mae'r partneriaethau hyn yn cyfoethogi'r dysgu ac yn atgyfnerthu rôl ganolog yr ysgol yn y gymuned.

Mae'r ysgol yn mynd ati i annog disgyblion i ddatblygu medrau arwain ac ymgymryd â chyfrifoldebau, sy'n rhoi cyfleoedd amrywiol iddynt wneud penderfyniadau. O ganlyniad, mae gan lawer o ddisgyblion ymdeimlad o berchnogaeth a chyfrifoldeb am agweddau ar wella'r ysgol, er enghraifft trwy arwain gwasanaethau ar hawliau disgyblion a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol.

Mae llywodraethwyr yn darparu cymorth a her briodol i arweinwyr yr ysgol. Maent yn dod ag ystod o brofiad a gwybodaeth werthfawr i'w rôl. Maent yn dangos dealltwriaeth dda o

gyd-destun yr ysgol, ei chryfderau a'i meysydd i'w datblygu. Mae llywodraethwyr yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyfeiriad strategol yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn casglu tystiolaeth yn uniongyrchol ac yn cyfarfod â staff, sy'n sicrhau bod gan lywodraethwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu, ac mae hyn yn eu helpu i herio arweinwyr yn briodol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni / gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a’r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny’n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion, lle bo’n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo’n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae’r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a)  mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  15/12/2025